# Goruchwyliaeth ar Bartneriaethau – Cyngor Sir y Fflint

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5019A2025

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir y Fflint fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cipolwg o'r archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

Fe wnaethom ystyried a oes gan y Cyngor drefniadau priodol i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol ar y partneriaethau y mae'n rhan ohonynt. I wneud hyn, fe ddewisom ni ddwy bartneriaeth y mae gan y Cyngor rôl arwyddocaol ynddynt, sef y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Ni roddodd yr archwiliad hwn sylw i holl drefniadau partneriaeth y Cyngor. Fe ddefnyddiom ni'r cwestiynau a'r meini prawf archwilio a nodir yn **Atodiad 1** i oleuo ein hasesiad o drefniadau'r Cyngor.

## Pam fod hyn yn bwysig

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn i'r Cyngor gyflawni dyletswyddau cyfreithiol a chefnogi mentrau lleol. Gall fod yn offeryn grymus i fynd i'r afael â phroblemau polisi a gweithredol a gwneud defnydd gwell o adnoddau. Mae angen goruchwyliaeth effeithiol i sicrhau ei fod yn ateb gofynion cyfreithiol a bod partneriaethau'n cyflawni eu deilliannau bwriadedig ac yn rhoi gwerth am arian.

## Y casgliadau y daethom iddynt

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei fwriad strategol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, fel a welwyd yng Nghynllun y Cyngor a'r cymorth o ran arweinyddiaeth. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau y mae'r broses o'i roi ar waith. Mae'r trefniadau Llywodraethu ar gyfer y ddwy bartneriaeth a adolygwyd yn eu lle, ond nid oes gan y Cyngor ddull corfforaethol o ymdrin â'i holl bartneriaethau. Nid oes ganddo ffordd gyson o'u diffinio, eu rheoli na'u goruchwylio. Bydd sefydlu fframwaith partneriaethau cymesur a chyson, gyda dealltwriaeth fwy eglur am adnoddau a deilliannau, yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian ac yn cyfrannu'n effeithiol at amcanion strategol.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad sy'n ymwneud â diffinio'n glir yr hyn sy'n gyfystyr â phartneriaeth a dull corfforaethol lle mae canllawiau a hyfforddiant yn y cwestiwn; a datblygu fframwaith gwerthuso cymesur i asesu gwerth am arian ac effaith partneriaethau.

# Ein canfyddiadau

## Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig i'r Cyngor ond megis dechrau y mae'r broses o roi'r flaenoriaeth strategol hon ar waith

1. Mae'r Cyngor wedi gwneud ymrwymiad strategol i weithio mewn partneriaeth. Dangosir hyn gan y ffaith ei fod wedi cael ei gynnwys fel blaenoriaeth newydd yng Nghynllun y Cyngor 2023-28, gyda ffocws ar gydweithio gyda phartneriaid o bob sector i gyrraedd nodau a chyflawni blaenoriaethau a rennir. Roedd uwch arweinwyr y cyfwelom ni â hwy yn gyson yn mynegi pwysigrwydd partneriaethau yn y Cyngor.

2. dan y flaenoriaeth 'Cyngor a Reolir yn Dda', mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn ymrwymo i weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i wella llesiant ledled Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae dull strategol y Cyngor o weithio mewn partneriaeth i'w weld fel pe bai'n canolbwyntio ar waith y BGC. Er y cydnabyddir gwerth cydweithio, nid oes rhyw lawer o dystiolaeth o uchelgais ehangach i archwilio ffyrdd o ddefnyddio gwaith mewn partneriaeth fel offeryn trawsnewidiol i gyflawni ei flaenoriaeth strategol.

3. Gall ffocws strategol ar weithio mewn partneriaeth, y tu hwnt i ateb gofynion statudol, helpu i ysgogi synergedd wrth ddarparu gwasanaethau, a'i gwneud yn bosibl defnyddio adnoddau'n effeithlon. Gall hefyd ddwyn newid ystyrlon i gyflawni deilliannau gwell.

## Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer ei bartneriaethau statudol yn eu lle

4. Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer y ddwy bartneriaeth statudol y gwnaethom eu hadolygu, sef y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) wedi'u sefydlu'n glir. Mae ymrwymiad a bwriad strategol y Cyngor ar gyfer y partneriaethau hyn yn amlwg. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod y partneriaethau statudol hyn yn cael eu harwain gan ddiben sydd wedi'i ddiffinio'n dda, deilliannau â bwriadau eglur, a phroses ymgysylltu strwythuredig sy'n dangos sut y mae'r Cyngor yn cydweithio gyda'i bartneriaid.

5. Mae’r Cyngor hefyd wedi sicrhau bod pob partneriaeth yn rhestru ei haelodaeth gyda diffiniad o rolau a chyfrifoldebau. Adlewyrchir hyn mewn dogfennau, megis y cylchoedd gorchwyl, a adolygir ac a ddiwedderir yn flynyddol gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam (ar gyfer y BGC) a Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel (ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol), yn ogystal â phrotocolau rhannu gwybodaeth, a chofnodion pwyllgorau craffu.

## Nid oes gan y Cyngor ddull corfforaethol o ymdrin â’i holl bartneriaethau

6. Nid oes gan y Cyngor ddull strwythuredig i gynorthwyo ei staff i adnabod, datblygu a rheoli ei holl bartneriaethau ar draws y sefydliad. Nid oes gan y Cyngor ddull eglur o adnabod pwy y mae arno eisiau gweithio gyda hwy. Mae penderfyniadau ynglŷn ag ymgysylltu â phartneriaid yn dibynnu ar wybodaeth cynghorwyr a swyddogion, heb ddulliau diffiniedig i roi cymorth i gynnwys partneriaid. O ganlyniad, nid oes gan y Cyngor ryw lawer o sicrwydd ei fod yn adnabod, yn blaenoriaethu, nac yn ymgysylltu â phartneriaid mewn ffordd strategol a gaiff ei hystyried yn llawn.

7. Nid oes gan y Cyngor gofnod cyfoes o’r holl bartneriaethau. Gall diffyg cofnod canolog rwystro gallu’r Cyngor i gynnal goruchwyliaeth strategol ar ei bartneriaethau. Gall hyn arwain at golli cyfleoedd i gydweithio, dyblygu ymdrech, ac aneffeithlonrwydd. Gallai hefyd wanhau gallu’r Cyngor i sicrhau bod gwaith mewn partneriaeth yn cyd-fynd â’i flaenoriaethau corfforaethol.

8. Nid yw’r Cyngor wedi ei gwneud yn glir beth sy’n gyfystyr â phartneriaeth. Gall y diffyg diffiniad a rennir greu ansicrwydd ynghylch pa berthnasoedd gweithio ddylai gael eu cofnodi ar lefel gorfforaethol. Heb yr eglurder hwn, gall peth gwaith ar y cyd gael ei anwybyddu.

9. Clywsom enghreifftiau o ddysgu anffurfiol, megis cysgodi cydweithwyr neu fynychu cyfarfodydd partneriaeth. Gwelsom hefyd enghreifftiau o ddarparu hyfforddiant i aelodau’r BGC ar ‘Feddwl trwy Systemau’, mewn ymateb i anghenion penodol a adnabuwyd gan bartneriaethau. Fodd bynnag, nid yw’r Cyngor yn darparu canllawiau a hyfforddiant corfforaethol i sicrhau bod yr holl staff sy’n rhan o waith mewn partneriaeth, neu sy’n ceisio ymgysylltu â’r gwaith hwnnw, yn deall ac yn cymhwyso dull cyson.

10. Heb fframwaith ategol a chysondeb mewn hyfforddiant, gall swyddogion ac aelodau fod yn ansicr sut i gychwyn neu asesu cyfleoedd newydd ar gyfer partneriaethau. Gall hyn arwain at arferion anghyson a cholli cyfleoedd. Gall dull strwythuredig yn seiliedig ar egwyddorion a rennir, sy'n cynnwys canllawiau, hyfforddiant, ac offer i werthuso partneriaid posibl helpu i wreiddio gwaith mewn partneriaeth yn fwy dwfn a chyson ar draws y Cyngor.

## Nid oes gan y Cyngor broses eglur i asesu gwerth am arian ei bartneriaethau

11. Mae strwythurau llywodraethu presennol y Cyngor yn darparu fframwaith ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor, yn ogystal â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, wrth uwch swyddogion ac aelodau etholedig. Er bod hyn yn darparu sylfaen ar gyfer monitro cynnydd, efallai nad yw trefniadau adrodd cyfredol yn cynnig digon o oruchwyliaeth i ddeall yn llawn faint o werth am arian a gyflawnir trwy weithio mewn partneriaeth.

12. Gwelsom fod rhai trefniadau yn eu lle i fonitro cynnydd tuag at ddeilliannau partneriaethau. Er enghraifft, mae Adroddiad Trosolwg y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (Hydref 2024) yn cynnwys mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â gostwng cyfraddau troseddau gan ddefnyddio cyllyll a rhoi mentrau diogelwch ar waith. Fodd bynnag, nid oedd eglurder tebyg ar gynnydd tuag at gyflawni deilliannau'n amlwg ar gyfer y BGC.

13. Mae dealltwriaeth gyfyngedig y Cyngor am ei ystod lawn o bartneriaethau hefyd yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor asesu'r gofynion llawn o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â'i waith mewn partneriaeth. Er bod adnoddau, megis amser swyddogion a chyllid allanol i gyflawni prosiectau, yn cael eu neilltuo i'r BGC, mae gweithgarwch arall mewn partneriaeth yn cael ei amsugno gan gyllidebau gwasanaethau presennol. Ni ddarparodd y Cyngor enghreifftiau o fynd ati'n systematig i asesu a yw ei bartneriaethau'n dwyn gwerth am arian. Er enghraifft, ni welsom unrhyw dystiolaeth o feincnodi, nac o ddefnyddio data cymharol i werthuso deilliannau yn erbyn adnoddau a ddefnyddiwyd.

14. Heb ddull eglur o adnabod y gofynion o ran adnoddau1 sy'n gysylltiedig â'i ymrwymiadau gweithio mewn partneriaeth, a heb fesurau perthnasol ar draws yr holl bartneriaethau, gall y Cyngor ei chael hi'n anodd penderfynu a yw'r trefniadau hyn yn dwyn eu manteision bwriadedig. Mae hyn yn cyfyngu ar ei allu i fonitro cynnydd, cymryd camau cywirol pan fo angen, a gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â dyrannu adnoddau, blaenoriaethu, a pha un a ddylid parhau â threfniadau penodol, eu cynyddu yn unol â'r anghenion, neu ymadael â hwy.

[1] Yn rhai ariannol ac anariannol

## Ein hargymhellion

A1 Dylai'r Cyngor ddiffinio'n glir yr hyn sy'n gyfystyr â phartneriaeth a gweithio i ffurfioli a hybu trefniadau gweithio mewn partneriaeth ar draws y sefydliad. Dylai hyn gynnwys datblygu canllawiau a darparu hyfforddiant i sicrhau bod staff yn deall trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac yn mynd ati'n gyson i gymhwyso dull a rennir ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

A2 Dylai'r Cyngor hefyd ddatblygu fframwaith gwerthuso cymesur i asesu a yw ei bartneriaethau'n dwyn gwerth am arian ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion sefydliadol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gweithgarwch mewn partneriaeth yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

# Atodiad 1 – Cwestiynau a meini prawf archwilio

**A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol ar y partneriaethau y mae'n rhan ohonynt?**

| | | |
|---|---|---|
| A oes gan y Cyngor strategaeth eglur ar gyfer gweithio mewn partneriaeth? | A oes gan y Cyngor weledigaeth eglur ar gyfer gweithio mewn partneriaeth? | Mae gan y Cyngor weledigaeth eglur o ran yr hyn y mae arno eisiau ei gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth.<br>Mae gan y Cyngor fframwaith polisi ar gyfer gweithio mewn partneriaeth sy'n amlinellu ei ddull a'i fethodoleg yn eglur ac sy'n hygyrch iawn.<br>Mae'r Cyngor yn hyrwyddo pwysigrwydd gweithio'n dda mewn partneriaeth ac fe geir cefnogaeth i'r dull ar bob lefel.<br>Mae'r Cyngor wedi adnabod manteision gweithio mewn partneriaeth. |
| | A yw'r Cyngor wedi darparu canllawiau a hyfforddiant ar weithio mewn partneriaeth? | Mae'r Cyngor yn darparu canllawiau a hyfforddiant ar weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y dull yn cael ei ddeall a'i roi ar waith gan yr holl staff sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am gynrychioli'r Cyngor ar bartneriaeth neu am gefnogi partneriaeth. |
| A oes gan y Cyngor ddealltwriaeth eglur a chynhwysfawr am ei bartneriaethau presennol? | A yw'r Cyngor yn gwybod hyd a lled llawn y partneriaethau y mae'n rhan ohonynt? | Mae'r Cyngor wedi mapio'i holl bartneriaethau presennol ac mae ganddo gronfa ddata gyfoes o'r holl bartneriaethau y mae'n rhan ohonynt.<br>Mae'r Cyngor wedi adnabod ei rwymedigaethau statudol (lle mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu'r bartneriaeth yn gyfreithiol neu er mwyn cael cyllid ychwanegol/ateb un o ofynion y gyfundrefn asesu/canllawiau statudol).<br>Mae gan y Cyngor fecanwaith eglur i adnabod pwy y mae arno eisiau gweithio gyda hwy. |

| | | |
|---|---|---|
| | A yw'r Cyngor wedi diffinio pob partneriaeth yn eglur? | Mae'r Cyngor yn sicrhau bod diffiniad o bob partneriaeth gyda datganiad eglur o'i diben (dealltwriaeth eglur a rennir am ddiben a gweledigaeth y bartneriaeth). |
| | A yw'r Cyngor wedi nodi'n glir beth yw'r trefniadau llywodraethu ar gyfer pob partneriaeth? | Mae'r Cyngor wedi pennu safonau ar gyfer dogfennu trefniadau llywodraethu partneriaethau i egluro'r disgwyliadau a'r gofynion lleiaf a sicrhau cysondeb.<br>Mae'r Cyngor wedi dogfennu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer pob partneriaeth e.e. Cylch Gorchwyl.<br>Mae'r Cyngor yn sicrhau bod gan bob partneriaeth ddiffiniad eglur o rolau a chyfrifoldebau'r partïon sy'n rhan ohoni, e.e. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ei le. |
| | A yw'r Cyngor wedi adnabod deilliannau eglur ar gyfer ei bartneriaethau? | Mae'r Cyngor yn sicrhau bod pob partneriaeth wedi adnabod ei deilliannau bwriadedig yn eglur (nodau ac amcanion diffiniedig a chytunedig). |
| | A yw'r Cyngor yn asesu gwerth partneriaethau cyn ymrwymo iddynt? | Mae gan y Cyngor broses eglur ar gyfer asesu gwerth partneriaethau newydd ac ymrwymo iddynt. |
| | A yw'r Cyngor wedi ystyried y costau a'r adnoddau sy'n gysylltiedig â phob partneriaeth? | Mae costau ariannol a manteision pob partneriaeth yn cael eu deall yn glir a'u hegluro.<br>Mae'r Cyngor yn deall gofynion hirdymor pob partneriaeth o ran adnoddau. |
| | A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei bartneriaethau eu cael (e.e. ar Amcanion Llesiant y Cyngor, ar Amcanion Llesiant sefydliadau partner, ac ar y Nodau Llesiant Cenedlaethol)? | Mae'r Cyngor yn sicrhau bod pob partneriaeth wedi adnabod sut y mae ei gwaith yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei Amcanion Llesiant. Ceir arwydd clir sut y mae'r bartneriaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor. |
| A oes gan y Cyngor broses effeithiol ar gyfer monitro ei bartneriaethau, adrodd arnynt a'u hadolygu? | A oes gan y Cyngor drefniadau monitro ac adrodd eglur ar gyfer ei bartneriaethau? | Ceir trefniadau monitro eglur ar gyfer partneriaethau.<br>Ceir trefniadau eglur i adrodd ar bartneriaethau wrth swyddogion ac aelodau etholedig.<br>Mae'r trefniadau monitro'n cynnwys darpariaeth ar gyfer craffu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae gan y Cyngor fecanwaith i fynd ati'n rheolaidd i adnabod a monitro'r risg sy'n gysylltiedig â phob partneriaeth ac mae ganddo broses uwchgyfeirio eglur.<br><br>Mae risgiau sy'n ymwneud â phartneriaethau wedi'u cynnwys yn fframwaith rheoli risgiau rheolaidd y Cyngor. |
| | A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei bartneriaethau? | Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu effeithiolrwydd partneriaethau, gan gynnwys cost-effeithiolrwydd, o ran helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion.<br><br>Mae'r Cyngor yn adolygu'r deilliannau y mae ei bartneriaethau'n eu cyflawni. |
| | A yw'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu a yw ei bartneriaethau'n darparu gwerth am arian ac yn ychwanegu gwerth at y sefydliad? | Mae gan y Cyngor enghreifftiau ohono'n mynd ati'n rheolaidd i asesu a yw ei bartneriaethau'n darparu gwerth am arian ac yn ychwanegu gwerth at y sefydliad. |
| | A yw'r Cyngor wedi adnabod mesurau perfformiad priodol ar gyfer ei bartneriaethau? | Mae'r Cyngor wedi adnabod mesurau perfformiad eglur a chynhwysfawr ar gyfer ei bartneriaethau. Dylai amcanion fod yn benodol ac yn fesuradwy. Dylent ganolbwyntio ar ddeilliannau a chanlyniadau yn hytrach na gweithgareddau a dangos beth fydd y budd i'r gymuned leol neu o ran effeithlonrwydd. |
| | A yw'r Cyngor yn gweithredu pan nad yw partneriaethau'n perfformio fel a fwriadwyd? | Mae'r Cyngor yn cymryd camau cywirol i roi trefniadau partneriaeth yn ôl ar y trywydd iawn.<br><br>Mae'r Cyngor yn sicrhau bod gan bartneriaethau strategaethau ymadael eglur a thryloyw. |
| | A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o'i adolygiadau o bartneriaethau? | Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i rannu gwersi a ddysgwyd o adolygiadau o bartneriaethau i oleuo trefniadau partneriaeth yn y dyfodol.<br><br>Mae gan y Cyngor enghreifftiau o ddeilliannau cadarnhaol ac arfer da a gyflawnwyd gan y partneriaethau y mae'n ymrwymo iddynt. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.